

Annwyl feistri

Fy enw i yw Osian Roberts ac rwy'n gyfreithiwr a phartner yng nghwmni Guthrie Jones a Jones Dinbych sydd â swyddfeydd yn Nolgellau a'r Bala hefyd. Mae gennyf bractis amrywiol yn cynnwys gwaith sifil, eiddo, cyfraith teulu a chyflogaeth ac ewyllysiau a phroffiant.

Ysgrifennaf atoch yn unol â'ch cais am dystiolaeth.

Yn benodol ymatebaf i baragraffau 4 a 13eg o'r ceisiadau.

4. A yw'r system gyfiawnder yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu mynediad i bawb sydd angen y gwasanaethau, gan gynnwys cyngor? Sut fydddech chi'n gwella mynediad at gyfiawnder yng Nghymru?

Yn anffodus mae rhannau o Ogledd Cymru sy'n anghysbell gyda llysoedd awr neu fwy o daith. Mae'r system drafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol ac i rai heb gar na chyfrifiadur mae'r gallu i gael mynediad i'r llys bron yn amhosib. Fe geuwyd llysoedd troseddol Corwen flynyddoedd yn ôl a Dolgellau hefyd yn ddiweddar. Nid oes llys sirol na throseddol rhwng Caernarfon ac Aberystwyth sydd 77 milltir o bellter o wrth ei gilydd.

Fe ddylid defnyddio adeiladau cyhoeddus a swyddfeydd y Cyngor a chynnig llysoedd un diwrnod mewn trefi lle nad oes llys parhaol. Mae'r dechnoleg ganddom i gynnig gwrandawiadau drwy gyfrwng fidio a skype ond ni ddefnyddir y dechnoleg hon.

13. Beth yw'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg yn y system gyfiawnder ac addysg gyfreithiol yng Nghymru? Sut y dylid gwella darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y system gyfiawnder ac addysg gyfreithiol yng Nghymru?

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y system gyfreithiol yn anffodus yn parhau i fod yn isel. Nid oes prinder siaradwyr Gymraeg yn y system gyfreithiol boed yn farnwyr neu gyfreithwyr neu fargyfreithwyr. Fodd bynnag mae cyndynrwydd amlwg yn fy marn i ddefnyddio'r Gymraeg a'i gweld fel iaith y gellir gweinyddu cyfraith ynddi.

Mae'n galonddid fod nifer o farnwyr yng Nghymru'r nawr yn gallu'r Gymraeg. Mae'r rhan helaeth o farnwyr rhanbarth Gogledd Cymru yn gallu ac yn defnyddio'r Gymraeg ac yn annog ei defnydd yn y llys.

Fodd byddag nid yw hyn yn ddigon. Mae'n rhaid i gyfreithwyr arwain y ffordd drwy gynhyrchu dogfennau yn y Gymraeg, drwy ohebu a'i gilydd yn y Gymraeg a drwy gynnig eiriolaeth a chynrychiolaeth yn y Gymraeg yn y llysoedd.

Fe ddylid cynnig cyrsiau Eiriolaeth Cymraeg i gyfreithwyr a bargyfreithwyr. Cafwyd rhai llwyddiannus yng Nghaernarfon flynyddoedd yn ôl gyda llawer yn mynychu. Mae dirfawr angen normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd yn hytrach na gwneud ei defnydd yn eithriad – a hefyd ei normaleidio mewn ysgrifen a gohebiaeth.

Yn flaenorol byddwn yn dechrau achosion llys yn fynych yn y Gymraeg, pan fyddai llysoedd sirol rhanbarthol yn prosesu'r ceisiadau hyn. Ers creu'r CCMCC a'r CCBCC mae'n anoddach dechrau achos llys sifil yn y Gymraeg. Caiff hawliadau syml eu dileu am wythnosau lawer oherwydd eu bont wedi eu pledio yn y Gymraeg a golyga hyn fod achos wedi ei ddechrau yn y Saesneg yn cael ei ddechrau a'i ddelio hefo yn llawer cynt.

Cyn dyfodiad y CCMCC a'r CCBCC byddai llysoedd rhanbarthol yn delio ag achosion Cymraeg yn effeithiol. Efallai fod hyn yn rheswm dros gael adran arbennig i ddelio ac achosion Cymraeg yn y CCMCC neu'r CCBCC neu drosglwyddo'r ddyletswydd hwn i swyddfa yng Nghymru.

Nid yw'r wefan Money Claims Online ar gael yn y Gymraeg. Fe ddylai'r wefan fod yn ddwy ieithog. Byddai hyn yn hwyluso'r broses o ddechrau achos llys yn y Gymraeg a'n decach – gan fod achosion ar lein yn rhatach i'w dechrau.

Yn anffodus nid oes nifer digonol o staff y llys yn Wrecsam a Phrestatyn sydd a'r gallu i siarad Cymraeg. Rhaid cofio ers cau rhai llysoedd Ynadon a sirol fod y ddau lys yma'n gwasanaethu ardaloedd sydd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.

O safbwynt addysg yng Nghymru mae'n bryder nad yw'r SRA am gynnig yr arholiad SQE yn y Gymraeg ac o bosib yng Nghymru. Fe ddylai'r arholiad yma heb os gael ei gynnig yn y Gymraeg.

Gwnaiff y prifysgolion waith da o ran cynnig cyrsiau cyfraith yn rhannol yn y Gymraeg. Byddwn yn hoffi gweld mwy o gyrsiau a modiwlau Cyfraith yn y Gymraeg hyd at gwrs gradd LLB yn cael ei gynnig yn uniaith Gymraeg. Byddai cael graddiedigion LLB Cymraeg yn arwain a gynudd yn nefnydd yr iaith mewn practis.

Yn ddiffuant a gyda diolch

Osian